O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 2494 (Cy. 271)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Corris, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Medi 2012* |
| *Yn dod i rym* | *10 Hydref 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith a wneir arno.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Hydref 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Corris, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 10 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

"ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o gefnffordd yr A487 yng Nghorris yn Sir Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt sydd